

Y Pwyllgor Diwylliant - CC-12-01 (p.2)

Dyddiad: 4 Gorffennaf 2001

Amser: 10.30am – 1.00pm

Lleoliad: Neuadd y Dref, Dinbych

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

PWYLLGOR DIWYLLIANT

ADOLYGIAD O'R IAITH GYMRAEG

CYFLWYNIAD DRAFFT GAN GYNGOR GWYNEDD.

1. RHAGARWEINIAD.

1.1 Yn y cynllun strategol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru - www.gwellcymru.com

gwelir "ein gweledigaeth". Ac eithrio sôn am "fanteision dwyieithrwydd" (Saesneg a Ffrangeg?), nid oes cyfeiriad o gwbl at yr iaith Gymraeg. A ydi 'consensws' yn golygu peidio â sôn am y Gymraeg?

1.2 Mae'r strategaeth yn cynnwys tair prif thema :

- datblygu cynaliadwy

- mynd i'r afael ag anfantais cymdeithasol

- cyfle cyfartal.

1.3 Mae'r iaith Gymraeg yng nghlwm wrth y tair brif thema. Yng ngeiriau'r strategaeth, ystyr "datblygu cynaliadwy" yw "diwallu anghenion presennol heb beryglu gallu'n cenedlaethau a ddêl i ddiwallu ei hanghenion eu hunain". Mae parhad yr iaith Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol - ddoe, heddiw ac yfory, yn rhan o ddatblygu cynaliadwy.

- 1.4 Eto mae "mynd i'r afael ag anfantais cymdeithas" yn golygu "datblygu cymdeithas gynhwysfawr lle caiff pawb gyfle i gyflawni eu potensial". Heb waith, heb d, heb addysg yn ei iaith, nid oes gobaith gan unigolion a'r gymdeithas o unigolion sy'n creu cymuned, gyflawni ei potensial.
- 1.5 Ystyr "cyfle cyfartal" yw "hyrwyddo diwylliant lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal ar waith". Ar hyn o bryd mae'r pwysau economaidd yn erbyn cynnal yr amrywiaeth yng Nghymru lle mae parhad y cymunedau Cymraeg eu hiaith - hyd yma, yn cynnig amrywiaeth. Hefyd, nid oes gan siaradwyr y Gymraeg "gyfle cyfartal" i'w defnyddio.
- 1.6 Mae'r strategaeth am "hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg" trwy "sefydlu cyfran y siaradwyr Cymraeg, cynnal y twf yn nifer o bobl ifanc sy'n siarad yr iaith a chynorthwyo oedolion sy'n dysgu'r iaith".
- 1.7 Cymwynas bennaf gwaith y Pwyllgor fydd sefydlu'r Gymraeg yng nghraidd bywyd pob dydd Cymru. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, bydd rhaid newid strwythurau llywodraethol a sicrhau fod y Gymraeg yn dod yn bwnc llorweddol yng Nghymru; pwnc a ystyrir wrth greu polisi gan bawb ym mhob maes.
- 1.8 I gloi, credir fod angen integreiddio polisi ar lefel genedlaethol drwy sicrhau fod asiantaethau perthnasol sef y Cynulliad Cenedlaethol, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ogystal â'r cynghorau lleol yn cydweithio i fynd i'r afael a'r problemau.

2 **GWAITH**

- 2.1.1 Un enghraifft o ddiffyg darpariaeth ar gyfer parhad y Gymraeg fel iaith gymunedol yw Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol y Cynulliad. Yn ddiweddar mae Bwrdd Cyngor Gwynedd wedi ystyried y ddogfen.
- 2.1.2 Rhai o brif bwyntiau o flaen Bwrdd y Cyngor oedd :-
- Prin iawn yw'r sylw a roddir ar broblemau ac anghenion yr economi wledig, a siomedig iawn yw'r ymdrech i adnabod mesurau newydd ar gyfer adfywio'r economi wledig;
 - Prin hefyd yw'r sylfaen ar gyfeirio adnoddau, buddsoddiad a datblygiad newydd i Orllewin Cymru. Dylid atgoffa'r Cynulliad bod lleoliad daearyddol ardaloedd yn cael effaith ar eu gallu i gystadlu yn yr economi, a bod angen mwy o gefnogaeth ar y cymunedau hynny sy'n ymylol i'r prif farchnadoedd er sbarduno twf busnes a datblygiad yr economi;
 - Nid yw'r ddogfen yn manylu ar y modd y bydd cyllidebau'r cyrff sy'n derbyn nawdd gan y Cynulliad (e.e. Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru) yn cael eu hadolygu i adlewyrchu'r angen i sicrhau "datblygiad tiriogaethol cytbwys";.
 - Dylid pwysu ar y Cynulliad i osod targedau lleol ar gyfer gwaith y cyrff cyhoeddus perthnasol.

2.2.1 Mae'r un feirniadaeth yn wir am y ddogfen ar arian Amcan 1 - y 'Single Programming Document (SPD)'. (A oes fersiwn Gymraeg erbyn hyn?).

Os darllenwch yr SPD ei hun fe welwch fod cyfeiriadau at y Gymraeg yn brin, yn gyfeiliornus ac yn annelwig. Cewch ddysgu yn Adran 2.5.1. fod Cymru bellach yn 'Principality' a'i bod yn bwysig darparu deunydd yn y 'Principality' hwnnw ar gyfer 'people whose first language is Welsh or another language or who are disabled' (Adran 8.2). Mae'r bobl hyn yn byw yn bennaf yn 'the farming communities of West Wales which are the traditional strongholds of the language' (Adran 2.1.3). Hwyrach y caiff mewnfudo i gefn gwlad 'beneficial effects for labour mobility as it increases the value of property belonging to the indigenous population and thereby increases their opportunity to move' (Adran 5). Ac, wrth gwrs, 'an emphasis on the distinctiveness of Welsh culture might be perceived as evidence of insularity and could discourage inward investors and lead to reduced opportunities for innovation'. (Adran 5).

Yn y ddogfen sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd mewn llefydd fel Tudweiliog, Cross Hands a Chaernarfon ni fydd hi'n angenrheidiol i ystyried y cyfranogiad sydd gan y Cymry Gymraeg yn y prosiectau yma, nac ychwaith yr effaith a gânt ar ddyfodol ieithyddol yr ardaloedd hyn.

2.3.1 Mae astudiaeth Dr Dylan Phillips o Ganolfan Uwchefrydiaeth Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru ar "Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-

Orllewin Cymru' yn enghraifft prin o ddogfen sy'n cynnwys y Gymraeg fel rhan craidd o'r astudiaeth. Mae Pennawd 5.0 - yr Argymhellion - yn holl bwysig, er enghraifft:-

Fel y dengys canlyniadau'r astudiaeth hon, perir y niwed mwyaf i'r Gymraeg a'r bygythiad pennaf i'w dyfodol gan sgil-ffeithiau'r diwydiant. Y bygythiad pennaf, fel y gwelwyd eisoes, yw'r modd y mae twristiaeth yn annog ac yn hyrwyddo mewnfudiad parhaol o bobl anghyfiaith i gadarnleoedd yr iaith frodorol.

Serch hynny, trwy ddatblygu polisi sy'n rhoi'r pwyslais ar gynladwyedd a thrwy hyrwyddo strategaethau sy'n gwneud defnydd cynyddol o dwristiaeth diwylliannol, gallai'r diwydiant croeso wneud cyfraniad allweddol bwysig i'r iaith Gymraeg a dyfodol y cymunedau sy'n gadarnleoedd iddi.

3.1 TAI

3.1 Problem mewn llawer o ardaloedd ymylol yn yr ynysoedd hyn yw'r gystadleuaeth un ochrog ar gyfer tai rhwng y boblogaeth gynhenid mewn ardaloedd o gyflogaeth isel, e.e. Cernyw, Cumbria a Chymru - a phobl sy'n mudo i'r un ardaloedd phrynu o ardaloedd cyfoethocach, e.e. De-ddwyrain Lloegr, Canoldir Lloegr a Swydd Caer, a phrynu tai - cartrefi parhaol neu ail-gartrefi.

3.2 Mae nifer o fesurau y byddai'r Cyngor yn hoffi ei weld o ran delio â'r broblem ac mae rhai ohonynt wedi eu crybwyll yn ymateb y Cyngor i'r ddogfen Tai Gwell i Bobl Cymru. Mae crynodeb o'r holl gamau yr hoffai'r Cyngor eu gweld isod :-

- **angen lleol cyffredinol** - o dan y drefn gynllunio bresennol nid yw'n dderbyniol i awdurdodau cynllunio ddynodi tir ar gyfer pobl gyda angen lleol, dim ond ar gyfer angen cyffredinol (ar gyfer y farchnad agored). Yn ogystal, dylai'r cynulliad gyhoeddi canllawiau clir a phendant ar sut i lunio polisiau derbyniol a sut i gyfyngu preswyliaeth yn y dyfodol, e. e. trwy amod neu gytundeb 106.
- **tai fforddiadwy** - Mae angen darparu canllawiau cliriach a chaniatau i awdurdodau ddynodi safleoedd yn benodol ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Byddai hyn yn rhoddi sicrwydd i awdurdodau, cymunedau lleol a datblygwyr ynglŷn â lleoliad y tai hynny.
- **ail gartrefi** - ar hyn o bryd mae tai a ddefnyddir fel cartrefi parhaol ac ail-gartrefi/ tai haf yn cael eu gosod yn yr un Dosbarth o ran Rheoliadau Cynllunio (Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1995). Trwy newid y rheoliadau gellir gosod ail-gartrefi/unedau gwyliau mewn Dosbarth Defnydd gwahanol i gartrefi parhaol gan roi pwerau newydd i Awdurdodau Lleol i reoli defnydd rhan o'r stoc dai. Yn ôl yr hyn a ddeallir mae newid y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd o fewn pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hyn y golygu fod angen hawl cynllunio i newid o d cartref parhaol i ail-gartref/t haf.
- **cronfa** - Dylid ailsefydlu Cronfa barhaol er mwyn cynnig cymhorthdal ariannol i bobl leol wrth iddynt geisio prynu tai ar y farchnad agored.
- **deddf Hawl i Brynu** - dylid ystyried diwygio y Ddeddf Hawl i Brynu i gyfyngu ar werthiant tai mewn ardaloedd gwledig a hefyd rhoddi hawl i Gymdeithasau Tai gael y dewis cyntaf i brynu cyn-dai Cyngor sydd yn dod ar y farchnad. Dylid diwygio rheolau prynu tai y Cynulliad i ganiatau i Gymdeithasau Tai brynu mwy o dai yn y sector breifat.

4 CYNLLUNIO TREF A GWLAD.

4.1 'Roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfle euraidd i gynllunio ar gyfer y Gymru newydd yn eu Polisi Cynllunio drafft (Chwefror 2001) ond mae'r corff proffesiynol priodol - The Royal Town Planning Institute, wedi beirniadu natur geidwadol y ddogfen. Yn ei barn hwy, mae rhaid i'r Cynulliad :-

- gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio ar warchod a hybu'r Gymraeg.
- newid y cyngor ar dai yng nghefn gwlad er mwyn datblygu agenda Gymreig ar ddatblygiadau gwledig.

4.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno sylwadau manwl ar y ddogfen, gan gynnwys sicrhau cywirdeb yn y fersiwn Gymraeg, e.e.

Yr Iaith Gymraeg - Mae'r diffyg cydnabyddiaeth sydd wedi ei roi i'r iaith Gymraeg yn y ddogfen yn siomedig. Prin fod cynnwys dau baragraff ar ddiwedd adran yn ddigonol o ystyried pwysigrwydd yr iaith i gefndir, hanes a diwylliant ein gwlad.

Mae'r cyfarwyddyd a gynigir yn parhau i fod yn niwlog. Tra nodir bod yr iaith yn ystyriaeth cynllunio perthnasol, dywedir ar yr un pryd na ddylai polisïau cynllunio geisio rheoli meddianaeth tai ar sail ieithyddol. Mae angen cyfarwyddyd clir a phendant ar sut gall awdurdodau cynllunio lleol ymateb i'r sialens o warchod cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn arbennig felly yng nghydestun polisïau Cynlluniau Datblygu Unedol.

4.3 Bu llawer o sôn am y sefyllfa cynllunio ynglŷn â thai a pobl leol yn Ardal y Llynnoedd yn Lloegr. Yn arbennig mae'r "Lake District National Park Local Plan (1998)" yn ddogfen mae sawl yn cyfeirio ato. Dylai'r Cynlluniad archwilio'r ddogfen ac fel rhan o'r arweiniad i awdurdodau cynllunio yng Nghymru :

- esbonio paham na fydd y Cynulliad yn fodlon cefnogi polisïau tebyg yng Nghymru
- cynnig arweiniad ynglŷn a defnydd o bolisïau tebyg yng Nghymru.

5. Y GYMRAEG YN Y GYMUNED.

5.1 Pe bai'r tueddiadau rhwng 1981 a 1991 wedi parhau rhwng 1991 a 2001 disgwylir bydd dim ond rhyw ddwsin o ardaloedd cynghorau cymuned yng Ngwynedd hefo dro 75% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Bydd y mwyafrif ohonynt yn drefol.

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd mawr rhwng 1971 a 1991 yn y canrannau o bobl sydd wedi eu geni tu allan i Gymru ac sydd ddim yn siarad Cymraeg :

Ardal	Geni tu allan i Gymru (%) 1971	Geni tu allan i Gymru (%) 1991	Ddim yn siarad Cymraeg (%) 1971	Ddim yn siarad Cymraeg (%) 1991
Ardudwy	29.8	46.1	35.2	43.7
Berwyn	14.3	27.1	12.4	23.0
Dysynni	30.7	52.9	41.7	54.7

Eifionydd	18.1	32.1	20.4	28.7
Gwyrfai	14.4	20.6	17.2	18.9
Pen Llyn	17.6	32.4	19.7	29.7
Llyn	13.8	23.4	13.7	21.1
Menai	22.6	30.7	45.4	44.9
Moelwyn	13.7	26.2	13.2	21.5
Nantlle	13.7	28.3	13.2	23.1
Ogwen	16.7	30.6	18.4	29.5
Padarn	14.4	26.8	14.8	23.2
Y Gader	19.0	28.0	24.1	38.1

6. ADDYSG ANSTATUDOL.

- 6.1 Mae syniadaeth y Llywodraeth yn San Steffan ynglŷn a dileu rhwystrau i bobl ail-afael yn y gweithlu wedi arwain at lu o gynlluniau ar gyfer gofalu am blant iau. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth fod "awrygylch" ieithyddol nifer o'r cynlluniau hyn mewn ardaloedd Cymraeg yn Saesneg. Gan fod cefnogaeth ariannol gryf o ffynonellau cyhoeddus, disgwylir byddai amodau cadarn ynghlwm wrth y grant ynglŷn â chynnig cyfleuster dwyieithog.
- 6.2 Mae addysg barhaol, addysg gydol oes, hefyd yn faes twf. Unwaith eto, hyd yma, nid oes gan y Gymraeg statws gyfatebol yn y ddarpariaeth
- 6.3 Gellir beirniadu'r diffyg darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg uwch a phellach. Ond mae'r sefyllfa'n waeth gyda hyfforddiant galwedigaethol. Dydi'r Cyngor ddim yn argyhoeddedig fod "ELWa" yn rhoi sylw digonol i ddwyieithrwydd yng nghyswllt Addysg ôl-16 yn ei Cynllun Corfforaethol. Prinder hyfforddwyr ac aseswyr yw un o'r anawsterau mwyaf bydd rhaid goresgyn.

7. CASGLIADAU.

- 7.1 O dan Adran 32 o Ddeddf Llywodraeth Cymru gall y Cynulliad "wneud unrhyw beth i gefnogi'r iaith Gymraeg".
- 7.2 Mae'r archwiliad presennol yn gyfle i'r Cynulliad ddod â'r Gymraeg o'r ymylon a chreu polisi cynhwysfawr – nid polisi tai yn unig, nid polisi cynllunio yn unig, ond polisi cynhwysfawr i amddiffyn ac adfer y Gymraeg, yn y bröydd Cymraeg ac ymhobman arall.